

farw. Daeth hefyd yn arglwydd-raglaw y sir, ac yr oedd yn un o is-lywyddion y Welsh Charity School, Llundain. Priododd y 5ed barwnig, 12 Mai 1766, Margaret, ferch y Parch. Hugh Wynn, Bodysgallen a Berthddu, a'i wraig Catherine, chwaer William Vaughan, Corsygedol (gweler Vaughan, Corsygedol, Sir Feirionnydd), ac aeres Robert Wynn, Bodysgallen. Ymysg y plant o'r briodas hon yr oedd (1) Elizabeth, a briododd Syr Edward Pryce Lloyd, Pengwern, Sir y Fflint, a Bodfach, Sir Drefaldwyn, barwnig (isod); (2) Thomas Mostyn, yr aer; a (3) Anna Maria, a briododd, yn 1802, Syr Robert Williames Vaughan, Nannau, Sir Feirionnydd, barwnig. Yr oedd Syr Roger hefyd yn ymddiddori yn llenyddiaeth a hanes Cymru: cyflwynodd Evan Evans ('Ieuan Brydydd Hir') ei *Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards* iddo. Bu farw 26 Gorffennaf 1796.

Cadwodd y 6ed barwnig, Syr THOMAS MOSTYN (1776 - 1831), at draddodiad y teulu ynglŷn â chynrychioli sir y Fflint yn y Senedd. Bu'n siryf Sir Gaernarfon, 1798, a Sir Feirionnydd, 1799. Bu farw yn ddibriad 17 Ebrill 1831, daeth y teitl i'w derfyn, ac aeth y stadau yn eiddo i Syr Edward Pryce Lloyd (1768 - 1854) (isod), y barwn Mostyn 1af (crewyd 10 Medi 1831).

Rhoddir tras teulu Lloyd yn llyfrau Burke, Debrett, etc., ar y bendefigaeth, etc. Buasai'r teulu â chysylltiad â siroedd y Fflint a Dinbych ers canrifoedd. Bu Syr EDWARD LLOYD (1710? - 1795), y barwnig 1af, yn ysgrifennydd rhyfel. Ar 29 Awst 1778 y gwnaethpwyd ef yn farwnig, ac yr oedd y teitl i'w nai Bell Lloyd. Eithr bu ef farw ar 6 Mai 1793, sef o flaen ei ewythr. Pan fu'r barwnig 1af farw aeth y teitl a'r stadau i'w or-nai, Syr EDWARD PRYCE LLOYD (1768 - 1854), yr ail farwnig, mab Bell Lloyd, Pontriffith; yr oedd i'r Bell Lloyd hwn ail fab, yntau'n Bell Lloyd, a oedd yn amaethydd goleuedig. Priododd y 2il farwnig Elizabeth, trydedd merch Syr Roger Mostyn, y 5ed barwnig; yr oedd hi yn chwaer Syr Thomas Mostyn, y 6ed barwnig ac yn gyd-aer ag ef, a chan iddo ef farw'n ddibriad (ar 17 Ebrill 1831) daeth stadau Mostyn i feddiant gwr Elizabeth, sef Syr EDWARD PRYCE LLOYD, a ddaeth yn farwn 1af Mostyn, ac a etifeddodd holl stadau Mostyn. Hyn sydd yn cyfrif paham y mae ymhlith y Mostyn MSS. a ddaeth i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1918 lawysgrifau a fu yn llyfrgelloedd Gloddaeth, Corsygedol, Nannau, etc.

Bu 2il farwn Mostyn farw 3 Ebrill 1854 a dilynwyd ef gan ei fab hynaf, EDWARD LLOYD (1795 - 1884), yr ail farwn Mostyn, arglwydd-raglaw Sir Feirionnydd. Ychwanegodd ef 'Mostyn' at y cyfenw 'Lloyd.'

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Rhoddir y prif ffynonellau yn yr ysgrif

Atynt hwy ychwaneger *Reports of the Historical Manuscripts Commission*, R.W.M. (gan J. Gwenogvryn Evans), I, i, 1898, a *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, i, 261-3

Archifau LIGC: [NLW MS 4965E](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). MOSTYN (TEULU), Mostyn Hall, Sir y Fflint, etc.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MOST-MOS-1301>

Copy

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government